Rhwydwaith
CYMUNEDAU MWY DIOGEL CYMRU
WALES SAFER COMMUNITIES
Network

# Ymateb Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru i: Llywodraeth Cymru - Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol

Yn cau 15 Gorffennaf 2021
Ymateb a gyflwynwyd drwy'r arolwg ar-lein

**Eich enw:** Sarah Capstick
**Sefydliad (lle bo'n berthnasol):** Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru
**Cyfeiriad e-bost/rhif ffôn:** Safercommunities@wlga.gov.uk
**Eich cyfeiriad:** Local Government House, Drake Walk, Cardiff CF10 4LG

**Cwestiynau**

**1. A yw'r weledigaeth, y diben, y gwerthoedd a'r dyfodol dychmygol hyd at 2030 yn adlewyrchu'r hyn yr hoffech ei weld yn cael ei gyflawni erbyn 2030? Beth allai rwystro'r weledigaeth a'r gwerthoedd rhag cael eu gwireddu? Beth allai helpu i wireddu'r weledigaeth a'r gwerthoedd?**

Ar y cyfan, rydym yn cytuno gyda'r uchelgeisiau a amlinellir yn y weledigaeth, y diben, y gwerthoedd a'r dyfodol a ragwelir yn y cynllun.

Fodd bynnag, rydym yn ystyried bod sawl peth a allai achosi rhwystr. Mae'r cyntaf o'r rhain yn ymwneud â'r cyhoedd ac i gyflawni'r weledigaeth bydd angen iddynt gefnogi'r cynllun. Felly, fe allai nod trawsbynciol yn ymwneud ag addysg ehangach ac ymgysylltu â'r cyhoedd helpu i wireddu uchelgeisiau.

Yn ail, mae risg bosibl y gallai polisi a chamau gweithredu Llywodraeth y DU weithio yn erbyn cynlluniau Cymru. Er enghraifft, mae effaith lletya ceiswyr lloches ym Mhenalun wedi cynnwys Britain First yn recriwtio cynrychiolydd yng Nghymru i godi eu proffil a rhoi mwy o sylw i dargedu gwestai a sefydliadau eraill lle mae ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn preswylio dros dro.

Mae'r dyfodol a ragwelir yn darparu ystod o heriau ychwanegol ac mae'n debygol y bydd y tu allan i reolaeth Llywodraeth Cymru, er enghraifft sicrhau na fydd troseddau casineb yn y cyfryngau a'r cyfryngau cymdeithasol yn digwydd mwyach neu fynd i'r afael â hiliaeth sefydliadol o fewn diwylliant poblogaidd a chwaraeon. Yn nodedig, nid oes gan y byd ar-lein ffiniau ac efallai y bydd Llywodraeth Cymru yn dymuno ystyried cyfleoedd i ymgysylltu gydag arweinwyr y DU a byd-eang a chwmnïau cyfryngau cymdeithasol a gosod camau gweithredu yn ymwneud â hyn. Mae'r gamdriniaeth hiliol ac ymosodol a welwyd tuag at chwaraewyr pêl-droed Lloegr, eu cefnogwyr a'u teuluoedd yn dilyn gêm derfynol pencampwriaeth Ewrop UEFA, wedi ein hatgoffa o'r heriau cymdeithasol a graddfa'r ymateb sydd ei angen.

Cael gwared ar 'bydd y stigma sy'n gysylltiedig ag anabledd mewn cymunedau ethnig lleiafrifol wedi lleihau'. Er ein bod yn cytuno gyda'r cam gweithredu hwn, nid ydym yn gweld sut y bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy unrhyw un o'r camau gweithredu yn y cynllun gweithredu. Gall y rhain fod yn wahaniaethau diwylliannol, sy'n awgrymu mai rhan

o’r cynllun yw ceisio newid rhai o’r diwylliannau eu hunain ac fe allai hyn gael ei ystyried fel elfen hiliol anfwriadol yn y cynllun gweithredu.

Rydym yn cytuno gyda’r syniad i ddefnyddio gwefan di-enw er mwyn i bobl ifanc a phobl hŷn allu rhannu eu profiad o hiliaeth mewn ffordd ddiogel. Fodd bynnag, gellid ystyried y cyfleoedd presennol sydd ar gael, megis yr elusen Crimestoppers. Mae ei defnyddwyr dienw yn fwy amrywiol o ran ethnigrwydd na’r boblogaeth gyffredinol ac mae ganddi wefan bwrpasol ar gyfer pobl ifanc o’r enw Fearless.Org. Yn ogystal, rydym yn cwestiynu defnydd y gair henaduriaid, oherwydd bod y term hwn, mewn rhai cymunedau, yn cael ei gadw ar gyfer unigolyn neu grŵp bach adnabyddedig. Rydym yn credu y dylai hyn gyfeirio at bobl hŷn oherwydd y byddai hyn yn fwy cynhwysol. Ar ben hynny, er ein bod yn cydnabod bod tanadrodd ymhlith pobl ifanc yn uchel, rydym yn credu y dylid ceisio barn a phrofiadau pawb o bob oedran.

Mae hefyd y mater o’r cam gweithredu sy’n nodi y bydd pobl o gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol “yn “siarad gydag un llais”” (tudalen 18). Mae hyn yn mynd yn groes i rannau eraill y cynllun gweithredu sy’n datgan nad yw pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol yn rhan o’r un grŵp, ond eu bod, yn hytrach, yn gasgliad o gymunedau, grwpiau ac unigolion gwahanol gyda’u safbwyntiau, syniadau a barn eu hunain ac y dylid gwrando arnynt a’u cynnwys.

**2. Hoffem gael eich barn ar y nodau a'r camau gweithredu. I fynegi barn ar rai o’r nodau, camau gweithredu a chanlyniadau, neu phob un ohonynt, ystyriwch y canlynol:**

- **(a) A yw'r esboniad (naratif / cefndir) yn egluro pam rydym wedi dewis y nodau a'r camau gweithredu yn y maes polisi hwn?**
- **(b) A oes unrhyw flaenoriaethau neu wybodaeth gefndir ar goll neu unrhyw wybodaeth arall?**
- **(c) Ydych chi'n cytuno â'r nodau a’r camau gweithredu a ddewiswyd? Pa gamau fyddech chi’n eu hychwanegu neu eu dileu?**
- **(d) A fydd pob nod a cham gweithredu cysylltiedig yn cynhyrchu'r canlyniadau dymunol a nodwyd gennym? Os na, beth fyddech chi am ei newid fel ein bod yn cyflawni newidiadau sy'n wirioneddol wrth-hiliol yn yr amserlenni a nodir?**
- **(e) Sut y gellid cynyddu neu liniaru'r effaith gadarnhaol neu negyddol?**

**Addysg:** Er bod cyfeiriad yn y Camau Gweithredu Trosedd a Chyfiawnder at y Glasbrintiau ar gyfer Troseddwyr Benywaidd a Chyfiawnder Ieuenctid, nid oes cyfeiriad penodol at addysg mewn carchardai neu leoliadau diogel i bobl ifanc er bod y mater wedi’i ddatganoli, ac fe allai hyn gynnwys gwella mynediad i gynorthwyo ag adsefydlu ac atal troseddu yn y dyfodol. Gan ddatblygu sgiliau newydd a thorri rhwystrau a allai annog cymodi a thorri’r gylchred o droseddu drwy gyflawniadau eraill.

Hefyd, mae cyfle i gyfeirio at gydweddu â Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan, y cyfeirir ati fel SchoolBeat Cymru.

**Troseddau casineb a chyfiawnder:** Yn yr ymateb hwn, rydym yn ymateb i'r adran 'Troseddau, cyfiawnder, agweddau atgas a chydlyniant cymunedol'. Y mater cyntaf yw nad yw llawer o'r system cyfiawnder troseddol yn ddatganoledig ac felly mae y tu allan i bŵer a deddfwriaeth Llywodraeth Cymru.

O ran y cam gweithredu cyntaf yn ymwneud ag ymgyrch i godi ymwybyddiaeth o drosedd casineb a'i effaith. Rydym yn awgrymu bod angen gwneud hyn mewn ffordd sensitif ac yn ofalus er mwyn osgoi gwneud hiliaeth yn rhywbeth i fod yn falch ohono ymysg rhai unigolion ac yn wobr am ymddygiad hiliol, yn enwedig gan grwpiau'r adain dde eithafol.

Rydym yn cytuno mewn egwyddor gyda gwella'r gefnogaeth ar gyfer y rhai hynny sydd wedi profi troseddau casineb ar sail hil drwy Ganolfan Cymorth Casineb Cymru newydd. Nid yw'n glir o'r wybodaeth sydd wedi cael ei darparu, beth yn union fydd cost hyn a beth fydd y canlyniadau o'r Ganolfan. Hefyd, dim ond ffocws ar drosedd casineb ar sail hil sydd yma, ac yn ôl pob golwg, nid yw hyn yn rhoi ystyriaeth i droseddau casineb trawsbynciol sy'n cynnwys hil a rhywedd, hil ac anabledd ac ati. Os yw'r ffocws ar hil yn unig, yna mae perygl na fydd troseddau casineb sy'n ymwneud ag un o'r nodweddion eraill yn cael sylw i'r un graddau. Fe allai hyn fod yn benodol bryderus pan fo hil yn ffactor cyfrannol eilaidd i'r drosedd casineb.

Rydym yn cytuno gyda gweithio gyda chyflawnwyr troseddau casineb i leihau nifer ac atal troseddau casineb yn y dyfodol. O ystyried bod rhai troseddau casineb yn gysylltiedig ag eithafiaeth, mae'r ffaith nad oes unrhyw sôn am Contest Cymru, yn enwedig Prevent a Contest, yn fwlch yn y cynllun gweithredu. Felly, mae'n aneglur sut y bydd y rhaglen waith hon yn cysylltu â'i gilydd, sy'n peri risg o ddyblygu a hefyd gadael bylchau rhwng dwy system ar wahân.

Mae'r Bil Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a Llysoedd sy'n mynd drwy San Steffan ar hyn o bryd wedi arwain at y Gynghrair Cyfiawnder Troseddol yn mynegi pryderon y bydd yn dyfnhau anghydraddoldebau hiliol (*Coalition warns new policing and sentencing bill will deepen racial inequality | Criminal Justice Alliance*). Er y bydd cyfle i Lywodraeth Cymru ymateb i'r elfennau datganoledig, mae'r elfennau nad ydynt wedi'u datganoli y tu allan i reolaeth Llywodraeth Cymru. Felly, fe allai'r Bil danseilio camau gweithredu, nodau a diben y cynllun gweithredu. Bydd Llywodraeth Cymru yn gallu rhoi mewnbwn ar y Bil ond nid yw'n glir faint o ddylanwad y ceir ar faterion heb eu datganoli, mae hyn hefyd yn berthnasol i ganlyniad yr ymgysylltiad â'r broses o greu polisi cyfiawnder troseddol sy'n rhan o'r cynllun gweithredu.

Er ein bod yn cytuno mewn egwyddor gyda'r camau gweithredu, pan maent yn ymwneud â materion sydd heb eu datganoli, rydym yn pryderu bod y system cyfiawnder troseddol yng Nghymru mewn perygl o fethu oherwydd bod yn rhaid iddynt gydymffurfio gyda deddfwriaeth sydd wedi cael ei gosod gan Lywodraeth y DU, a gafodd adroddiad yn ddiweddar sy'n mynd yn erbyn llawer o'r safbwyntiau yng Nghynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol Cymru. Mae'r syniad o liniaru yn erbyn effaith deddfwriaeth y DU yn syniad nobl, ond heb ragor o fanylion ynghylch sut y bydd hyn yn cael ei wneud fe allai fod yn gostus a thynnu'r sylw oddi ar ardaloedd eraill a lleihau'r adnoddau a'r gefnogaeth a roddir i'r unigolion a'r cymunedau eu hunain.

Rydym yn pryderu bod y cynllun gweithredu yn awgrymu nad yw data VAWDASV yn cael ei gasglu. Mae gofyniad am strategaethau VAWDASV rhanbarthol wedi cael ei roi ar waith yn dilyn Deddf VAWDASV (Cymru). Mae'n ddyddiau cynnar arnynt o hyd ac felly dylid rhoi cyfle iddynt gyflawni cyn cymryd camau gweithredu eraill a allai ystumio'r ffocws oddi wrth wybodaeth leol.

Hefyd, nid oes unrhyw beth yn y cynllun gweithredu yn ymwneud â sicrhau bod cyfiawnder a chefnogaeth i ddioddefwyr VAWDASV sydd heb fodd i droi at gyllid cyhoeddus. Efallai eu bod hefyd yn ddioddefwyr mathau o gamfanteisio a heb gefnogaeth a gwasanaethau mae perygl gwirioneddol na fydd gan y dioddefwyr unrhyw ffordd o ddianc rhag camdriniaeth a chamfanteisio.

Nodwn fod Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru wedi cael ei grybwyll, fodd bynnag, nid oes unrhyw sôn am y partneriaethau eraill sy'n cymryd rhan, yn cynnwys y Bwrdd Partneriaeth Plismona, Bwrdd Contest Cymru, Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel, Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i enwi dim ond rhai. Mae cyfle i bob partner weithio gyda'i gilydd i hyrwyddo Cymru wrth-hiliol ond mae angen cydnabod yr ystod lawn o bartneriaethau sy'n ymwneud â diogelwch cymunedol yn y Cynllun ac ymgysylltu â hwy ar lefelau strategol a gweithredol uchel.

Nid oes sôn am wasanaethau carchardai yng Nghymru, y tu hwnt i'r glasbrint newydd ar gyfer droseddau menywod a throseddau ieuenctid. Mae'n ymddangos bod hyn, ynghyd â dim sôn am gyfnod prawf ac adsefydlu troseddwr, gyda nifer anghymesur ohonynt yn dod o gymunedau Du, Asiaidd neu Ethnig Lleiafrifol, yn fwlch yn y cynllun gweithredu ac fe allai arwain at amhariad pellach i'r cynlluniau o amgylch cydlyniant cymunedol. Byddai eglurhad o sut mae'r cynllun hwn yn cyd-fynd neu'n disodli'r 'Fframwaith i Gefnogi Newid Cadarnhaol ar gyfer y Rhai Sydd Mewn Perygl o Aildroseddu' yn ddefnyddiol (framework-to-support-positive-change-for-those-at-risk-of-offending.pdf (gov.wales))

**Tai a llety:** Roeddem yn falch iawn o weld yr ymrwymiad i gynyddu nifer y troseddau casineb a roddir gwybod amdanynt. Fodd bynnag, mae problemau ar hyn o bryd gyda throseddau casineb yn ymwneud ag Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, oedi â llysoedd a phwysau ychwanegol ar yr heddlu, Awdurdodau Lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i ddarparu cefnogaeth tra bod y rhes olaf o achosion o droi allan wedi cael ei hatal ac maent yn awr yn wynebu ôl-groniad. Bydd cynnydd mewn adrodd yn cynorthwyo â nodi lefel y broblem ond ni fydd yn gwella'r broblem heb y gwasanaethau a'r gefnogaeth ychwanegol, yn cynnwys eiriolaeth i ddatrys problemau a thywys ar hyd y llwybrau priodol. Er mwyn gallu gwneud hyn mae angen canfod yr arian a phobl sydd wedi'u hyfforddi'n llawn ac sy'n gallu ymgymryd â dull Iechyd Cyhoeddus o ran canfod datrysiad.

Ymddengys nad oes unrhyw gyfeiriad at Rhentu Doeth Cymru sydd i fod i wella profiad y rhai sy'n rhentu, boed hynny'n rhentu tai preifat neu dai cymdeithasol Oherwydd bod Rhentu Doeth Cymru eisoes yn meddu ar rai pwerau penodol drwy ddeddfwriaeth, roeddent yn teimlo bod hwn yn hepgoriad ac yn gyfle a gollwyd lle mae gan Lywodraeth Cymru bŵer datganoledig ac wedi creu trefn ar wahân i Gymru.

**Cyflogaeth ac incwm:** Dim ymateb.

**Iechyd:** O ran Gwasanaethau Iechyd a Chanlyniadau Iechyd, mae ambell bwynt rydym yn dymuno eu codi:

1) Nid oes unrhyw sôn am wasanaethau iechyd yn mynd i garchardai na'r rhai hynny mewn carchardai yn defnyddio gwasanaethau iechyd eraill. Oherwydd bod tystiolaeth bod niferoedd anghymesur o uchel o bobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol o fewn y system carchardai mae'n ymddangos bod hyn wedi cael ei fethu. Mae nyrsys carchardai, er enghraifft, yn cael eu darparu drwy ofal sylfaenol.
2) Gellid cynnwys cyfeiriad at rôl gefnogi allweddol nyrsys ysgol yn y cynllun.
3) Nid oes unrhyw gamau gweithredu ychwaith o ran gofalwyr neu ofalwyr ifanc. Efallai na fyddai hyn effeithio'n unionyrchol ar deimlo'n ddiogel yn y gymuned. Fe allai'r baich ychwanegol neu'r diffyg gallu i gael gafael ar wasanaethau arwain at gynnydd yn y defnydd o sylweddau anghyfreithlon, mwy o ddicter a rhwystredigaeth ymhlith pobl ifanc gan arwain at ymddygiad gwrthgymdeithasol neu fod yn fwy agored i Linellau Sirol a mathau eraill o gamfanteisio.

**Gofal Cymdeithasol:** Mae yna fater yn ymwneud â'r cyrsiau academaidd i broffesiynoli gofal cymdeithasol. Er ein bod yn cytuno gyda phroffesiynoli a'r mesurau diogelu ychwanegol sy'n dod ynghyd â hyn. Oherwydd bod y cymwysterau ychwanegol mor academaidd nid ydynt yn addas i lawer o bobl sydd wedi dysgu Saesneg drwy gwrs SSIE, codwyd y mater hwn gan Bartneriaeth Gweithlu Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro tra roeddent yn cael eu datblygu. Mae'r ddeddfwriaeth i gyflwyno trefniadau cofrestru a phroffesiynoldeb eisoes yn mynd rhagddi ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cynnwys y gofyniad i gynnig dewis iaith yn y ddarpariaeth. Os nad oes modd cofrestru gweithwyr gofal cymdeithasol, oherwydd y cymwysterau, yna'r unig opsiwn yw defnyddio Taliadau Uniongyrchol ac i'r ddarpariaeth ddigwydd drwy'r llwybr Cynorthwywyr Personol nad yw'n cael ei reoleiddio. Fe allai hyn gyflwyno llwybr ar gyfer troseddu cyfundrefnol a throseddu oportiwnistaidd (yn cynnwys camdriniaeth a chamfanteisio) drwy ddiffyg goruchwyliaeth a rheoleiddio. Mae hefyd yn debygol o effeithio ar faint o ddata sydd ar gael am y gweithlu gofal cymdeithasol o gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol. Mae hefyd yn lleihau'r gronfa o weithlu gofal cymdeithasol Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol sy'n gallu symud ymlaen i rolau rheoli.

**Arweinyddiaeth a chynrychiolaeth**: Dim ymateb.

**Y celfyddydau, diwylliant, chwaraeon a threftadaeth**: Dim ymateb

**Yr amgylchedd**: Dim ymateb

**Y Gymraeg**: Dim ymateb

**Democratiaeth leol**: Dim sylw, gan gymryd bod hyn yn cyfeirio at yr adran Llywodraeth Lleol. Rydym yn deall y bydd ymateb yn cael ei gyflwyno gan gydweithwyr CLlLC o ran yr adran hon o'r cynllun.

**Materion trawsbynciol**: Roedd rhai sylwadau ar yr adran hon:

- Mae datblygu map o grwpiau Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol yn swnio fel syniad da, fodd bynnag, sut y bydd y map hwn yn cael ei gynnal, oherwydd bod grwpiau'n debygol o symud wrth i'r gymuned ei ddefnyddio neu beidio. Mae risg hefyd y bydd yn gwneud y gwrthwyneb i rai pwyntiau sydd wedi'u nodi yn y ddogfen, sef peidio ag edrych ar y cymunedau gwahanol fel un gymuned gydag un farn, oherwydd mae'n debygol y bydd llawer o safbwyntiau gwahanol o fewn cymunedau gwahanol.
- Mae sicrhau cyllid cyson a chynaliadwy ar gyfer pob gwasanaeth yn her barhaus, gyda chyllid tymor byr y gwasanaethau cydlyniant cymunedol, er enghraifft, yn broblem o ran diogelwch cymunedol, gan gyfyngu faint o gefnogaeth a gwasanaethau a ddarperir i'r ystod lawn o gymunedau, yn enwedig yr ardaloedd sy'n profi mwy o heriau economaidd-gymdeithasol, sydd yn anffodus yn cynnwys niferoedd uwch o bobl o grwpiau Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol.
- Mae deddfwriaeth eisoes ar waith ar gyfer Asesiadau o Effaith ar Gydraddoldeb ac Asesiadau o Effaith ar Gydraddoldeb ac Iechyd, maent yn nodi bod angen eu datblygu drwy ymgynghori a thra bod y dogfennau y maent yn gysylltiedig â nhw hefyd yn cael eu datblygu. Mae hyn eisoes yn cael ei wneud gan sawl partner statudol, fodd bynnag, rydym yn nodi bod ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru fel arfer ond yn gofyn am yr effaith ar yr iaith Gymraeg ac nid nodweddion gwarchodedig a fyddai'n cynnwys datblygiad yr Asesiadau yn y broses yn ogystal â chyhoeddi'r Asesiadau drafft fel rhan o'r ymgynghoriad.
- Mae credydau amser yn cynnwys costau parhaus ac nid ydynt yn cael eu caniatáu ar gyfer ceiswyr lloches na'r rhai heb hawl i gyllid cyhoeddus (Adran Gwaith a Phensiynau). Gallai hynny beri i bobl gael eu hallgáu ymhellach. Lle mae credydau amser wedi'u defnyddio yn y gymuned, bu problemau, gydag amnest gan un sefydliad yn arwain at filoedd yn cael eu dychwelyd gan bobl yn dweud eu bod yn gwirfoddoli i'r gymuned ac wedi bod yn eu rhoi mewn drôr. Mae angen cyfleoedd i wario sy'n gweithio i'r gymuned a busnesau. Ataliodd COVID-19 bron pob cyfle i wario, gydag o leiaf un Cyngor yn trafod peidio â bwrw ymlaen â'u cynllun credydau amser mwyach gan nad oedd yn diwallu anghenion y gymuned leol.

3. **A oes unrhyw nodau a chamau gweithredu y gallwch feddwl amdanynt sydd ar goll? Pwy ddylai eu cyflawni a pha gamau a fyddai'n eu helpu i wneud hynny?**
Gweler y sylwadau yn erbyn pob un o'r categorïau o dan gwestiwn 2. Yn ogystal, mae diffyg pwyslais ar ddiogelwch cymunedol. Mae diogelwch cymunedol yn bwysig ar gyfer cydlyniant cymunedol, lles pobl a lleihau trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ond eto nid yw wedi'i grybwyll unwaith yn y cynllun gweithredu, gan awgrymu mai gweithio ar wahân sy'n debygol o fod yn wir o ran VAWDASV, Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Tai ac ati i gyd yn gweithio yn eu gofodau eu hunain yn hytrach na gweithio'n gyfannol gyda phobl. Ymddengys hefyd bod diffyg dull Iechyd Cyhoeddus o ran atal, gan ddefnyddio gwybodaeth am brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod a dulliau sy'n deall trawma. Mae'r strwythur o amgylch y rhain i gyd eisoes wedi'i sefydlu, efallai eu bod angen cyllid mwy cynaliadwy ac adnoddau ychwanegol i ddarparu ychwanegedd.

4. **Beth yw'r heriau allweddol a allai atal y nodau a'r camau gweithredu rhag cyflawni gwrth-hiliaeth erbyn 2025?**
Ymddengys bod dryswch ynghylch y dyddiadau gweithredu rhwng 2025 a 2030, fe allai hyn arwain at ddiffyg ffocws a dryswch.

Mae angen gwneud defnydd o'r strwythurau llywodraethu partneriaethau presennol, os ddim, fe allai'r oedi o ran sefydlu rhai newydd a chanfod sut maent yn cysylltu â'r rhai presennol, sydd yn angenrheidiol drwy ddeddfwriaeth, achosi oedi diangen, dryswch a diffyg perchnogaeth.

Diffyg o ran y gwaith casglu data sydd wedi cael ei wneud, o ystyried faint o waith sydd ar ôl i'w wneud. Mae gosod cytundebau rhannu data yn cymryd amser ac fe allai arwain at oedi, yn enwedig os ydynt yn cael eu tynnu allan o'r trefniadau partneriaeth presennol.

Mae problem hefyd ynghylch materion heb eu datganoli fel y soniwyd eisoes a'r cyfyngiadau y mae hyn yn ei roi ar Lywodraeth Cymru, sy'n golygu efallai yr effeithir yn negyddol ar gam gweithredu oherwydd deddfwriaeth y DU.

Mae angen canolbwyntio ar Egwyddorion a Ffyrdd o Weithio o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a ddylai ddod â'r holl waith ynghyd ac mae eisoes yn ofynnol dan ddeddfwriaeth i bob corff statudol yng Nghymru eu defnyddio, eu hystyried ac ymateb iddynt.

Fel Rhwydwaith, rydym yn credu bod gwrando ac ymateb i brofiadau bywyd pobl yn bwysig. Rydym hefyd yn credu'n gryf mewn darparu drwy ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth a thrwy rannu arferion gorau ar draws Cymru gyfan. Gyda chymaint o gamau gweithredu, mae risg y gallai fod yn loteri cod post i unigolion a chymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol o ran pa gamau gweithredu sy'n cael eu rhoi ar waith yn yr ardal maent yn byw ynddi, ac os ydynt yn seiliedig ar dystiolaeth glir neu syniadau unigol heb eu seilio ar ddysg flaenorol gan arwain at wersi yn cael eu hanwybyddu a'u hailadrodd.

Diffyg cyllid ar gyfer yr ystod eang o brosiectau. Mae cyrff statudol a'r trydydd sector wedi'u heffeithio gan flynyddoedd o galedi, effeithiau COVID (sydd yn parhau i gael eu deall yn llawn) a chyllid y dyfodol yn dilyn Brexit gan ychwanegu ansicrwydd ariannol ychwanegol. Os yw cyllid yn cael ei dynnu o fannau eraill fe allai arwain at fwy o anghydraddoldeb, sydd yn broblem pan fo croestoriadedd yn digwydd.

**5. Pa adnoddau (gallai hyn gynnwys cyllid, amser staff, hyfforddiant, mynediad at wasanaethau cymorth neu eiriolaeth ymhlith pethau eraill) a fydd yn angenrheidiol yn eich barn chi i gyflawni'r nodau a'r camau gweithredu a amlinellir?**

Mae hyn bron yn amhosib i'w amcangyfrif gyda'r cynllun gweithredu ar ei ffurf bresennol, pan nad yw, yn ôl pob golwg, yn rhoi ystyriaeth i'r hyn sydd eisoes yn cael ei ddarparu ac y gellid ychwanegu ato e.e. diogelwch cymunedol, cydlyniant cymunedol, Contest. Mae'n amlwg y bydd angen adnoddau ychwanegol i gyflawni'r cynllun gweithredu, ond heb gysylltu â'r adnoddau presennol fel y soniwyd eisoes, mae perygl o ddyblygu a gadael bylchau.

O ran diogelwch cymunedol, rydym eisoes yn gwybod ein bod yn brin o un adnodd yn benodol, sef dadansoddwyr data. Mae mwy o ddata yn cael ei gasglu gan yr holl bartneriaid sy'n cymryd rhan mewn diogelwch cymunedol, ond gyda llai o gyllid yn arwain at fynediad cyfyngedig at ddadansoddwyr data, mae'r gallu i integreiddio ac ystyried yr holl ddata yn ei gyfanrwydd wedi'i gyfyngu. O ystyried themâu trawsbynciol diogelwch cymunedol a'r

cynllun gweithredu cydraddoldeb hiliol, mae’r angen am feddwl ar y cyd i ddatblygu’r sylfaen dystiolaeth data yn allweddol ar gyfer y ddwy elfen.

**6. Ydych chi'n teimlo bod y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol yn ymdrin yn ddigonol â chroestoriad hil â nodweddion gwarchodedig eraill megis crefydd, anabledd, oedran, cyfeiriadedd rhywiol, trawsrywedd, rhyw, a statws priodasol a phartneriaeth sifil? Os na, sut y gallwn wella hyn?**

Na, nid ydym yn credu bod croestoriadedd wedi cael ei drafod yn ddigonol. Er enghraifft, nid yw’n ymddangos bod unrhyw gydnabyddiaeth o’r heriau ar gyfer y rhai hynny sydd â chyfeiriadedd rhywiol gwahanol ac sydd efallai yn wynebu gwahaniaethu yn eu cymunedau eu hunain yn ogystal â thu allan i’w cymunedau. Gan arwain at droseddau casineb o fewn y cymunedau eu hunain.

Yn ôl pob golwg, nid yw’r stigma o amgylch anabledd ac iechyd meddwl yn enwedig, wedi cael ei adlewyrchu yn y cynllun gweithredu. Mae hyn yn gwneud yr unigolion o fewn y categorïau hyn yn agored i gamfanteisio gan eraill o fewn eu cymunedau eu hunain a thu hwnt. Er enghraifft, roedd digwyddiad cyfnewid nodwyddau yn cael ei gynllunio ar gyfer rhan o ddinas yng Nghymru, fe wnaeth sawl un a oedd angen y gwasanaeth ac a oedd yn rhan o’r gymuned ethnig leiafrifol ofyn am iddo beidio â chael ei leoli yn eu hardal oherwydd na fyddai modd iddynt ei ddefnyddio oherwydd y byddai’n codi cywilydd arnyn nhw a’u teuluoedd pe baent yn cael eu gweld yn defnyddio’r gwasanaeth.

Ymddengys mai ychydig iawn o sylw sy’n cael ei roi i ffactorau economaidd-gymdeithasol a’r angen i leihau tlodi, sy’n cael effaith anghymesur ar gymunedau o bobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol. Mae tlodi yn cael effaith eang, yn cynnwys ar y risgiau o gamfanteisio a throseddoldeb.

**7. Gweler yr adran Llywodraethu. Pa awgrymiadau allwch chi eu cynnig ar gyfer mesur llwyddiant wrth greu Cymru wrth-hiliol ac ar gyfer cryfhau atebolrwydd am weithredu?**

O gymharu â gweddill y cynllun gweithredu, ychydig iawn o fanylder oedd yn yr adran Lywodraethu. O ran trefniadau llywodraethu lleol, byddem yn awgrymu defnyddio’r trefniadau llywodraethu partneriaeth sydd eisoes ar waith, megis partneriaethau diogelwch cymunedol, byrddau gwasanaethau cyhoeddus, a byrddau partneriaeth rhanbarthol. Mae yna eisoes nifer fawr o drefniadau a gofynion ar gyrff statudol, nid yw’n glir beth fydd mantais y trefniadau a awgrymir a sut y byddant yn casglu ac yn adlewyrchu graddfa lawn y safbwyntiau a barnau gan gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol o bob rhan o Gymru.

Rydym yn cytuno gyda datblygu Uned Gwahaniaethau ar sail Hil ac Uned Data a Thystiolaeth Cydraddoldeb, fodd bynnag, nid yw’n glir o’r cynllun gweithredu pa wahaniaeth fydd yr unedau hyn yn ei wneud i unigolion a chymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol ar draws Cymru neu sut y byddant yn cysylltu â threfniadau presennol o ran casglu a dadansoddi data neu lywodraethu. Efallai y byddai’n well defnyddio’r adnoddau ar gyfer y rhain i ariannu’r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni’r camau gweithredu yn y cynllun ei hun.

Rydym yn credu bod problem gyda sut mae’r cynllun gweithredu wedi cael ei ysgrifennu ar hyn o bryd. Er enghraifft, mae cynnydd mewn adrodd ynghylch troseddau casineb ar sail hil

yn ganlyniad, yn hytrach na lleihau troseddau casineb ar sail hil drwy ymyriadau megis rhaglenni addysg a fyddai'n darparu canlyniad gwell i ddioddefwyr posibl yn y dyfodol ac yn dangos bod Cymru yn wlad wrth-hiliol. Fe allai cynnydd heb unrhyw fath o weithrediad ddangos y gwrthwyneb.

8. **Hoffem wybod eich barn am yr effaith y byddai'r canllawiau yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

   **Beth fyddai'r effeithiau, yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu leihau effeithiau negyddol?**
   Dim Ymateb.

9. **Esboniwch hefyd sut, yn eich barn chi, y gellid trefnu neu newid y dull polisi arfaethedig er mwyn sicrhau effeithiau cadarnhaol neu mwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac atal unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**
   Dim Ymateb

10. **Datblygwyd y cynllun hwn ar y cyd, ac mae trafodaethau ynghylch iaith a hunaniaeth wedi dangos nad yw llawer o bobl yn ystyried bod y term 'BAME' yn briodol. O ganlyniad, rydym yn cyfeirio at bobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol neu bobl ethnig leiafrifol penodol yn y Cynllun. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod y term hwn hefyd yn broblemus a'i bod yn well, lle bo'n bosibl, bod yn fwy penodol am yr hil neu'r ethnigrwydd y mae unigolyn neu gymuned yn uniaethu ag ef. Fodd bynnag, ar adegau mae angen cyfeirio at yr holl bobl hynny sy'n rhannu'r profiad o fod yn destun hiliaeth. Rydym wedi defnyddio'r term pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol at y diben hwn. Beth yw eich barn am y term hwn ac a oes dewis arall sy'n well gennych? Gall siaradwyr Cymraeg ystyried termau addas yn y ddwy iaith.**
    Dim Ymateb

11. **Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y gofod hwn i roi gwybod amdanynt:**
    Mae llawer iawn o sôn am gasglu data a rhannu data drwy gydol y cynllun gweithredu. Cyfarfu Rhwydwaith Gwella Data a Dadansoddi Arloesol Cymru, sy'n un o Rwydweithiau Partner Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel Cymru, yn ddiweddar ac maent yn awr yn dechrau edrych ar y rhwystrau a'r datrysiadau posibl ynghylch rhannu data ar draws Cymru. Un o'r awgrymiadau yw i Lywodraeth Cymru gefnogi a chymeradwyo rhai o'r llwyfannau ar gyfer data, fel bod yr holl bartneriaid yn gwybod eu bod yn cyrraedd safonau penodol ac yn meddu ar y lefelau cywir o ran anhysbysrwydd a threfniadau llywodraethu da a'u bod yn cydymffurfio'n llawn â deddfwriaeth llywodraethu a diogelu data ac arferion gorau, megis Cronfa Ddata SAIL. Mae yna hefyd gwestiwn ynghylch y data, ac os yw'r data i gyd yn cael ei gasglu, ar gyfer beth fydd yn cael ei ddefnyddio, mae pobl angen gwybod pa newid fydd yn ei achosi, fel arall, efallai na fyddant yn cydweithredu ac yn ei ystyried fel ymarfer ticio blwch yn hytrach na thasg bwrpasol.

Mae diogelwch cymunedol yn bryder sy'n flaenoriaeth i lawer o bobl yng Nghymru, ac mae'r gwasanaethau cyhoeddus sy'n cael eu darparu gan gyrff cyhoeddus, yn cynnwys awdurdodau lleol, yn dylanwadu'n uniongyrchol ar ba mor ddiogel mae pobl yn teimlo yn eu hardal leol.

Mae dyletswydd statudol ar Awdurdodau Lleol i sicrhau bod ganddynt Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol ar waith, mae'r rhain yn cynnwys yr Awdurdod Lleol, yr Heddlu, y Gwasanaeth Tân ac Achub, Byrddau Iechyd a Gwasanaethau Prawf. Mae'r partneriaethau'n gweithio i gynnig dull amlasiantaeth effeithiol i flaenoriaethau diogelwch cymunedol megis trais, camddefnyddio sylweddol, cam-drin domestig ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

Mae'r diffyg sôn am ddiogelwch cymunedol, a allai ddod â sawl edefyn ynghyd, yn siomedig. Ymddengys bod hyn yn duedd barhaus o fewn Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i beidio ag ystyried diogelwch cymunedol mewn modd cyfannol ac felly peidio ei weld fel blaenoriaeth. Mae hynny'n arwain at gyllid ar gyfer y meysydd mwyaf amlwg, ac felly'n colli llawer o'r elfennau ataliol ar gyfer camau gweithredu lefel is sy'n cynyddu diogelwch cymunedol ac sy'n atal ac yn lleihau rhai o elfennau mwy costus diogelwch cymunedol.